Neuadd y Sir
Caerdydd,
CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 2088
www.caerdydd.gov.uk
County Hall
Cardiff,
CF10 4UW
Tel: (029) 2087 2087
www.cardiff.gov.uk

Cyf/My Ref::
Eich Cyf/Your Ref::

12eg Mai 2025

Annwyl Riant, Gwarcheidwad/ gofalwyr

Ymgyrch Parch

Wythnos hon rydym yn lawnsio ein ‘Ymgyrch Parch’. Wrth i ysgolion ddychwelyd ar gyfer tymor yr Haf 2025, hoffem atgoffa cymunedau ysgol am bwysigrwydd sicrhau bod ysgolion yn fannau diogel, meithringar a chadarnhaol lle mae plant, pobl ifanc a staff yn cael eu trin â pharch ac urddas.

Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i ddiogelwch a lles myfyrwyr a staff, mae Cyngor Caerdydd wedi lansio ymgyrch newydd sy'n hyrwyddo amgylcheddau dysgu diogel i bawb sy'n eu mynychu.

Mae'r ymgyrch 'Parch' yn atgoffa cymunedau ysgol bod gan ddisgyblion a staff ysgol hawl i fynychu eu lleoliad addysg, heb unrhyw gam-drin nac unrhyw fath o ymosodiad ac na fydd yr ymddygiad hwn yn cael ei oddef.

Mae pob plentyn yn haeddu dysgu mewn amgylchedd sy'n rhydd rhag ofn a thrais a dylai ysgolion fod yn fannau diogel i ddisgyblion lle gallant ddysgu, datblygu a ffynnu.
Mae'n hanfodol ar gyfer llwyddiant academaidd, iechyd meddwl, perthnasoedd cadarnhaol, cynhwysiant, a pharatoi myfyrwyr ar gyfer y dyfodol.
Rydym hefyd yn awyddus i bwysleisio’r gwasanaeth hanfodol y mae ysgolion yn ei ddarparu i blant, pobl ifanc, teuluoedd a'r gymuned leol. Mae staff ysgol yn haeddu cael eu trin â pharch ac urddas a chael yr hawl i gyflawni eu rolau mewn modd diogel.

GWEITHIO DROS GAERDYDD, GWEITHIO DROSOCH CHI
Mae’r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, Saesneg neu’n ddwyieithog. Byddwn yn cyfathrebu â chi yn ôl eich dewis, dim ond i chi roi gwybod i ni pa un sydd well gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

WORKING FOR CARDIFF, WORKING FOR YOU
The Council welcomes correspondence in Welsh, English or bilingually. We will ensure that we communicate with you in the language of your choice, as long as you let us know which you prefer. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

CRYFACH TECACH GWYRDDACH | STRONGER FAIRER GREENER

Ni fydd unrhyw fath o gam-drin corfforol, ysgrifenedig na llafar tuag at staff yn ein hysgolion yn cael ei oddef a chymerir camau i gadw staff yn ddiogel.
Mewn rhai achosion, gall hyn gynnwys cyfyngu ar gyswllt a chyfathrebu ag unigolion penodol, gwahardd unigolion o'r safle a rhoi gwybod am faterion i'r heddlu pan fo angen.

Mae cadw ysgolion yn ddiogel yn ymdrech gydweithredol rhwng disgyblion, rhieni, ysgolion a'u cymunedau, a thrwy weithio gyda'n gilydd i feithrin diwylliant o barch, cynhwysiant a dim trais, rydym yn gallu grymuso myfyrwyr i ganolbwyntio ar eu haddysg a'u twf personol ac yn galluogi staff i addysgu'n effeithlon.
Helpwch ni i greu a hyrwyddo amgylcheddau dysgu diogel a chadarnhaol ar gyfer pob disgybl a'r staff o'u cwmpas.

Diolch yn fawr iawn i chi am eich cefnogaeth barhaus.



Melanie Godfrey
Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes